



21.3.20

Disgyblion Blwyddyn 11

I bob un o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Gyfun Cwm Rhondda 2020.

Teimlad od a thrist iawn yw hi fy mod i'n ysgrifennu hwn atoch chi nawr ac nid ymhen rhyw 3 mis.

Fe gawn ni ddathlu gyda'n gilydd fel yr ydych chi'n ei haeddu ond dwi am rannau ambell beth gyda chi yn y cyfamser.

Dechreuon ni ein taith gyda'n gilydd nol ym mis Medi 2016 (mae'n teimlo fel ddoe!). Pwy fydde wedi meddwl yr holl 'ups and downs' oedd o'n blaenau ni?

Dros y blynyddoedd, rydyn ni wedi chwervthin a chrio gyda'n gilydd. Roedd y dagrau dros bethau mawr a bach, ond pethau oedd yn bwysig i chi ac felly, roedden nhw'n bwysig i fi. Mae nifer ohonoch wedi gwneud camgymeriadau. Ond, mae'n bwysig gwneud camgymeriadau ond eich bod yn sicrhau eich bod chi'n dysgu ohonyn nhw. Dwi hefyd wedi gwneud camgymeriadau - ma pawb yn! Ond yn dweud hynny, gobeithio bod pob un ohonoch yn gwybod fy mod i wedi trio fy ngorau drostoch chi bob tro (er dwi'n siwr nad oedd hi wastad yn teimlo fel 'na!).

Braint llwyr oedd bod yn gyfrifol amdanoch chi dros y 4 mlynedd diwethaf. Ar adegau, rhaid bod yn onest, rydych chi wedi fy ngyrru'n gandrill! Ond, byswn i ddim yn newid dim un peth am ein hamser gyda'n gilydd. Mae gen i gymaint o atgofion hyfryd o bob un ohonoch. Mae eich gweld chi'n tyfu i fod yn oedolion ifanc bywiog, caredig, hyderus a doniol wedi gwneud i fi wenu bob dydd.

Nawr, dyma cwpl o bethau dwi am i chi gofio:

- peidiwch byncio gwers eich pennaeth blwyddyn ac yna cerdded heibio'i ffenest!
- peidiwch a dringo lan ar y tô i nol pêl heb offer diogelwch!
- peidiwch dod â 'water pistols' i'r ysgol (maen nhw dal yn fy swyddfa)!
- peidiwch â chymryd diwrnod cyfan off ysgol i fynd i gyngerdd sy'n dechrau am 7pm!
- peidiwch â rhoi 'deintydd' fel rheswm i lofnodi mas bob tro - dwi'n poeni'n fawr am gyflwr dannedd rhai ohonoch chi!

Ond yn fwy pwysig na dim:

- Peidiwch newid - rydych chi'n wych!

I'ch rhieni amyneddgar a gofalggar,

Diolch i bob un ohonoch am eich cefnogaeth dros y 4 blynedd diwethaf. Nid oedd pob galwad yn hawdd ond dwi'n gwerthfawrogi'ch dealltwriaeth bob tro. Dwi wir wedi bod wrth fy modd yn gweithio gyda'ch plant chi - fe ddylwch chi fod yn falch iawn ohonyn nhw!



To all the patient and caring parents of Year 11,

Thank you so much to each and every one of you for your support over the past 4 years. Some phonecalls were not easy but I truly appreciate your understanding every time. I have genuinely enjoyed working with your children - you should all be very proud of them!

Felly i orffen, diolch unwaith eto i bob un ohonoch chi - mae gan fy mlwyddyn nesaf lot o'w wneud i ddod yn agos atoch chi!

Mewn byd lle gallwch fod yn unrhywbeth, byddwch garedig.

Mrs Morgan xxx